# Sgript Llwybr Sain Chwarel Lechi Bryn-Eglwys

*Croeso i Lwybr Sain Chwarel Lechi Bryn Eglwys, sy'n cychwyn y tu allan i Ganolfan Abergynolwyn.*

**Trac 1: Gwraig y Chwarelwr -** *Pentref Abergynolwyn (ar bwys y Ganolfan Abergynolwyn)*

Dwi'n codi erbyn pump bob bore i wneud brecwast i'r gŵr cyn iddo gychwyn am y chwarel. Mae'n ddwy filltir o ddring i'r chwarel, ac mae'n rhaid iddo gael llond ei fol cyn ei ddiwrnod gwaith.

Rydyn ni'n byw yn un o dai'r chwarel. Mae yma bopeth sy'n angenrheidiol yn y pentref 'ma - groser, siop pysgod, y post, siop popeth, 3 becws, 2 siop fferins a 2 deiliwr. Daw popeth ar y lein o Dywyn, a dyna ichi gyffro pan gyrhaeddith y trên ! Mae'r wagenni'n cael eu gollwng i lawr yr inclein ( llethr serth o'r lein ydy'r inclein), ac os bydd rhaff yn torri dyna'r llwyth ar chwâl !

Mi fydda i'n trin y lotment bob pnawn ac yn mynd â'r sbarion bwyd i fwydo'r moch. Dwi'n siŵr o gyfarfod gwragedd eraill wrth y cytiau moch ac yn clywed newyddion y pentref.  Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddiwrnod lladd moch. O flaen y dafarn maen nhw'n cael eu pwyso, a ninnau'n cael ein talu mewn sofrenni aur.

Yn y gaeaf bydd y samwn yn nofio i fyny'r afon ac mi awn ni'n dau allan i botsio - hongian y pysgod yn y simnai i fygu wedyn. Dyna ichi swper blasus!

Mae'r tri phlentyn ieuengaf yn mynd i ysgol y pentre', a'r rhai hynaf yn teithio i'r ysgol ar y trên ar ddydd Llun, aros yn Nhywyn am yr wythnos, ac yn dod adref nos Wener.

Mae yma gantorion , beirdd a cherddorion heb eu hail yn y pentref yma, a chôr cymysg, côr meibion, band pres a chymdeithas ddrama. Mae pawb yn cystadlu'n frwd yn yr Eisteddfodau lleol ac yn yr haf mae'r corau'n cerdded dros y mynydd i gadw cyngerdd ym Mhennal a Machynlleth .

Mae yma gymdeithas glos, - pawb yn cynnig help llaw i'w gilydd! A phan fydd rhywun yn wael a methu gweithio rydyn ni'n cynnal cyngerdd a rhoi'r elw iddo a'i wraig. Er bod pres yn brin, mae bywyd yn gyfoethog yma yn Abergynolwyn .

**Trac 2: Chwarelwr yn teithio'n wythnosol -** Gorsaf Nant Gwernol Station (ar bwys y panel gwybodaeth)

Dwi'n byw yn Nhywyn ac yn gweithio yn chwarel Bryn Eglwys - trin llechu. Bob dydd Llun fydda i'n pacio mag am yr wythnos, cerdded i'r stesion a dal trên y chwarelwyr - 6 o'r gloch y bore i Abergynolwyn. Dwi'n aros yn y baracs yn ystod yr wythnos ac yn dod adre nos Wener.

Hanner y ffêr dy'n i'n gorfod ei dalu am y trên, ond i boced perchennog y chwarel fydd hwnnw'n mynd,- - fo biau'r lein hefyd. A dweud y gwir, fo biau popeth yn y cyffiniau yma- y rhan fwyaf o bentref Abergynolwyn a hyd yn oed y siop lle rydyn ni'n gorfod prynu'r offer a'r canhwyllau!

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dod oddi ar y trên yn Abergynolwyn, ond byddwn ni'r chwarelwyr yn reidio ar y wagenni i waelod inclein Allt Wyllt. Bydd rhai'n mentro reidio mewn un o'r wagenni gwag i fyny'r inclein, ond peth yfflon o beryglus ydy hwnnw, ac yn erbyn y rheolau. O'r fan yma mae dros filltir arall o gerdded i'r chwarel. Mae'r ffordd yn bellach fyth i ddynion Abergynolwyn. Does dim amser i segura ar ôl cyrraedd, rhaid i'r chwarelwyr fod y tu mewn i wal y chwarel erbyn 7 o'r gloch pan fydd y corn yn tewi neu mi fydd na helynt! Ond, chwarae teg iddo, mi fydd yr hen fachgen sy'n canu'r corn wastad yn taro golwg i lawr y ffordd rhag ofn bod rhywun yn hwyr !

O saith yn y bore tan 5 yn y pnawn rydyn ni'n gweithio'n galed, hanner awr gawn i i ginio. Dwi'n mwynhau bywyd er hynny, mae yma ymdeimlad o gymuned yn y chwarel. Dwi'n rhannu stafell yn y baracs efo 3 o ddynion eraill, swllt yr wythnos rydyn ni'n ei dalu am aros. Yn y gegin fawr, gawn i gyfarfodydd a chyngherddau yn aml. Mi fydd clamp o sosban ar y stof a ham a nionod uwch ben. Ar noson o haf,byddwn ni'n trin yr ardd. Pan glywa i am fywyd dynion mewn chwareli eraill, dwi'n meddwl ein bod ni'n lwcus iawn yma.

**Trac 3: Brecmon -** Inclein Allt Wyllt (ar bwys y panel gwybodaeth)

Ein gwaith ni ydy gofalu fod y wagenni'n teithio i fyny ac i lawr yr inclein hwn yn saff . Dwi'n cydio yn y brêc er mwyn i'r wagenni llawn allu disgyn i lawr yn araf. Dwi'n sefyll mewn lle agored ar ben yr inclein er mwyn imi gael gweld yn glir i lawr ar i lawr. Ar dywydd garw, mae'n oer ac yn wlyb yma heb le i ymochel. Mae gwaith y brecmon yn waith cyfrifol iawn ac angen dipyn o sgil. Dwi'n gallu brolio fy mod i wedi symud dodrefn i fyny i'r ffermydd mynydd heb dorri un gwydryn!

Gall damweiniau'n ddigwydd er hynny, y cebl yn torri, neu'r wagen yn datod. Un tro, mi ddeudais i wrth y bos fod un o'r ceblau wedi rhaflo. Ymhen ychydig dyma'r cebl yn torri pan oedd llwyth o Countesses (llechi mawr ydyn nhw) ar eu ffordd i lawr. Aeth y tryciau'n bendramwnwgl i lawr ac i mewn i dair wagen oedd yn sefyll ar y gwaelod - a dryllio pob un!

Dydych ddim i fod i reidio ar y wagenni a dweud y gwir, ond mae lot o ddynion yn gwneud. Dwi'n cofio un dyn – Dic oedd ei enw fo – yn reidio i lawr pan dorrodd y cebl. Dyma fo'n cael ei daflu dros y nant a tharo coeden fawr. Dim ond sigo'i arddwrn wnaeth o. 'y Flying Dick' oedd o fyth ers hynny!

Mae'n hawdd dweud pan fydd wagen yn datod a hithau'n symud ar i fyny. Mi glywch chi eiliad o saib cyn iddi ddechrau llithro i lawr. Mae llawer o ddynion wedi gallu arbed ei hunain drwy symud o'r ffordd yn ystod y tawelwch hwnnw. Ond ar y ffordd i lawr, does yna ddim saib – i ffwrdd â'r wagen ar unwaith! Gallwch weld olion y damweiniau ar hyd y nant.

Dau ddyn fydd yn gweithio ar ben yr inclein - yn bachu a dadfachu'r wagenni oddi ar y ceblau sy wedi'u weindio o gwmpas y drwm. Wrth inni yrru un llwyth i lawr, mi fydd pwysau hwnnw'n codi'r wagen wag i fyny.

**Trac 4: Holltwr -** *Edrych dros y Felin Isaf*

Dwi'n gweithio yn y Felin Isaf, yn hollti'r blociau yn llechi main. Dwi'n defnyddio cŷn llydan a main – un siâp triongl. Rhaid imi drio hollti'r llechen yr un trwch drwyddi. Mae ymyl tenau'n arwydd o holltwr gwael.

Cyn inni gael y llechi mae'r llif mawr crwn wedi bod wrthi'n torri'r blociau i'r maint iawn. Yna daw'r triniwr llechi i'w gorffen gan sgwario'r corneli ar y peiriant. Gwaith llaw oedd hyn ers talwm - defnyddio cyllell fach. Roedd hyn yr un mor dda, ond yn arafach o lawer na'r peiriant.

Pedair ar ddeg oed oeddwn i pan ddechreuais i yn y chwarel. Dechrau fel labrwr, ac yna mynd yn brentis dreser a splitter. Mae'n greft anodd ei dysgu, oherwydd llechi sâl maen nhw'n eu rhoi ichi gael ymarfer arnyn nhw. 'Wnaiff yr holltwyr profiadol ddim rhoi darnau da ichi. Mae'n flynyddoedd cyn ichi weithio'ch ffordd i fyny. O'r diwedd mi ges i fy nghyfle pan aeth un o'r trinwyr llechi'n wael, ac erbyn hyn dwi'n un o'r holltwyr mwyaf profiadol yma. Yn raddol, mi ddowch i ymdeimlo â'r llechen. Weithiau mae hi'n stiff ac rydych chi'n gwybod ei bod hi'n mynd i fod yn anodd.

Rydyn ni'n cystadlu yn y Gystadleuaeth Hollti Llechi yn Sioe Amaethyddol Meirionnydd yn Nhywyn. Rhaid inni wneud 15 o lechi o un bloc, 21/4" o drwch. Peth hawdd ydy cael 16 o un bloc - ond mae 15 yn anos o lawer.

Rydyn ni'n paratoi'r blociau'n ofalus - eu torri i'r maint iawn, gosod mwsogl gwlyb o'u cwmpas i'w cadw'n llaith a'u llwytho i'r wagen i'w gyrru i Dywyn. Dwi ychydig yn nerfus cyn y gystadleuaeth; dim ond chwech neu saith munud gawn i i orffen y dasg. Ar y cyfan, mae ein llechi ni'n fwy stiff na llechi chwarel Corris neu Aberllefenni, a hynny'n ein rhoi ni o dan anfantais. Dywedodd un beirniad,

'Nid yr holltwyr gorau enillodd heddiw, ond y holltwyr o'r chwarel arall. Roedd eu creigiau nhw'n haws i'w hollti.'

**Trac 5: Rheolwr** - *Safle tŷ rheolwr y chwarel*

Fi ydy rheolwr y chwarel yma. Dwi'n byw yn y tŷ mawr wrth y coed pin. Mi ddechreuais i pan brynodd Syr Haydyn Jones, yr Aelod Seneddol lleol, y chwarel yn 1910. Mae'r llechi o chwarel Bryn Eglwys yn rhai cadarn iawn ac yn ardderchog ar do tai. Llechi Bryn Eglwys sy ar do Westminster Hall a Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth. Maen nhw wedi'u hallforio dros y byd i gyd.

Ar ei hanterth yn 1885, roedd 300 o ddynion yn gweithio yn y chwarel. Erbyn hyn rydyn ni'n llai o lawer am fod y farchnad wedi newid a'r gwythiennau gorau wedi cael eu gweithio.

Dydyn ni ddim yn gwneud yr elw rydyn ni'n ei haeddu chwaith. Rhaid inni dalu breindal i dri o dirfeddianwyr gwahanol. Ac yn aml iawn byddan nhw'n dadlau am ba siambrau sydd o dan dir pwy!

Mae ein chwarelwyr yn ddynion trefnus iawn - neb yn yfed nac yn camfihafio. Mae bron pawb yn derbyn papur wythnosol ac yn gallu trafod digwyddiadau'r byd yn wybodus iawn. Yn ystod amser cinio mae rhyw drafodaeth yn siŵr o godi, yn arbennig ar ddydd Llun pa fydd pregeth y Sul yn cael ei thrin.

Ar adeg etholiad mae'r dadlau'n boeth, ond fydd neb byth yn rhegi. Mae'r mwyafrif yn bobl grefyddol, ac mae Beiblau ar gael yn y baracs a'r cabanau i'w darllen ar amser cinio ac i'w dyfynnu wrth drafod crefydd.

Mae rhai o'r dynion yn arbennig o ddawnus yn llenyddol ac yn gerddorol. Fe glywch chi adrodd a chanu a cherddoriaeth yn aml. Mae llawer o'r dynion yn aelodau'r côr neu'r band pres, ac wedi ennill gwobrau cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ar ddiwedd bob mis chwarel rhaid gwneud y cyfrifon. Daw'r chwarelwyr mewn rhes at y ffenest dalu i dderbyn eu cyflog mewn sofrenni aur , ac yna cânt hanner diwrnod o wyliau. Mae pawb yn edrych ymlaen at ddiwrnod cyflog!

**Trac 6: Creigiwr -** *Ar bwys y 'Daylight Adit' (ar bwys y panel gwybodaeth)*

Dwi'n gweithio mewn tîm efo fy mrawd, fy nghefnder a fy ewythr. Creigwyr ydy fy mrawd a minnau, yn gweithio o dan y ddaear. Mae'r ddau arall yn gweithio yn y felin yn hollti'r llechi rydyn ni'n eu tynnu o'r ddaear. Gwaith celfydd iawn ydy gwaith y creigiwr - rhaid ffrwydro'r blociau'n ddarnau heb iddyn nhw hollti cyn eu gweithio, ac yna rhaid tynnu'r slabiau o wyneb y graig a'u torri'n ddarnau i'w cludo mewn wagen ar y dramffordd i'r felin. Ar bob slab rydyn ni wedi crafu marc ein tîm er mwyn inni ei adnabod.

Yr unig oleuni ydy golau'r gannwyll. 'Cyfaill y mwynwr' y galwn ni'r gannwyll. Rydw i'n defnyddio tua 5 neu 6 bob dydd. Mewn un ffordd mae golau cannwyll yn well na rhyw olau llachar. Gallwch weld rhannau peryglus y graig yn gliriach.

Dwi'n clymu fy hun at wyneb y graig â chadwyn sy ynghlwm wrth beg yn y graig. Yna dwi'n lapio'r gadwyn o gwmpas fy nghlun a'i chlymu efo cwlwm 'half-hitch'. Yna dwi'n pwyso ar y gadwyn gan adael fy nwylo'n rhydd i ddrilio neu i ddefnyddio trosol. Pan fydd angen imi symud dwi'n rhyddhau fy nghoes ac yn dringo i lawr y gadwyn. Gwaith peryglus ydy gweithio yn uchel yn y siambr gyda ffrwydron a'r perygl o graig yn syrthio.

Weithiau mae damwain yn digwydd, fel arfer pan fydd dyn ar frys neu'n torri corneli i ennill ychydig mwy o dal. Roedd 1877 yn flwyddyn ddrwg, bu farw pedwar o ddynion o dan y ddaear. Cafodd dau ddyn eu gwasgu o dan ddarn mawr o graig, a syrthiodd dyn arall ar ei ben i lawr siafft yr Wythïen Gul wrth ddatod cadwyni wagen.

Er gwaetha'r peryglon, mae'r bechgyn ifanc wastad yn awyddus i ddechrau gweithio o dan y ddaear. Pan ddaw bachgen i lawr am y tro cyntaf, rydyn ni'n rhoi prawf arno drwy ei dywys drwy'r lefelau a diffodd y gannwyll. Mae'n lle tywyll iawn, iawn! Os ydy o'n llwyddo'r prawf hwn, rydyn ni'n gwybod bydd o'n iawn.